


# Castellnewydd Emlyn – Cynllun Adferiad a Thwf Economaidd

**Paratowyd ar gyfer Cyngor Sir Gar**

Mehefin 2021

# Tabl Cynnwys


1 Pam ydym ni'n gwneud hyn? .......... 3

2 Y Darlun Ehangach .......... 4

3 Castellnewydd Emlyn Heddiw .......... 6

4 Ystyriaethau a Chyfleoedd Lleol .......... 12

5 Camau nesaf .......... 14

6 Gweithredu'r cynllun .......... 24




This document has been prepared by: Owen Davies Consulting Ltd. On behalf of Carmarthenshire County Council Prepared by: Owen Davies, David Jones (Chilmark Consulting), Arwel Jones (Arwel Jones Associates), John Anderson (John Anderson Associates)
Owen Davies Consulting Ltd
7B Nevill Street
Abergavenny
NP7 7DR
www.owendaviesconsulting.co.uk
07809 594524
owen@owendaviesconsulting.co.uk



All maps within this document are:
Reproduced from Ordnance Survey with permission of the controller of Her Majesty's Stationery Office (C) Crown copyright.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2020 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights [2020] Ordnance Survey 100023377

Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution/ civil proceedings.


Newcastle Emlyn
Castell Newydd Emlyn
A475
A484
Afon Teifi

# 1 Pam ydym ni'n gwneud hyn?

Mae'r Cynllun Adferiad a Thwf hwn ar gyfer Castellnewydd Emlyn yn ymwneud â'r cyfleoedd sydd ar hyn o bryd ar gyfer adferiad economaidd cynaliadwy yn ogystal â ffyniant a thwf mwy hirdymor y dref a'r ardal o'i chwmpas dros y pum mlynedd nesaf a'r tu hwnt i hynny.

Mae effeithiau economaidd Coronafeirws yn gwbl eithriadol na phrofwyd erioed o'r blaen gan ein cenhedlaeth. Mae'r effeithiau hyn yn negyddol yn bennaf i'r economi leol, ond mae rhai pethau cadarnhaol, gyda chymunedau'n dod yn nes at gilydd a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n gwirioneddol gyfrif, ac yn fwy parod i weithredu'n gynaliadwy a chefnogi eu tref a'u heconomi leol.

Cyn y pandemig COVID-19, roedd Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi lansio Menter y Deg Tref i gefnogi twf a gwydnwch trefi gwledig ar draws y Sir. Y nod oedd datblygu gweledigaeth strategol hirdymor ar gyfer pob tref i gefnogi twf economaidd ac annog canolfannau mwy bywiog ac economaidd gynaliadwy. Rhoddwyd pwyslais newydd ar y fenter hon yng ngoleuni'r pandemig, i geisio adferiad economaidd ar unwaith yn ogystal ag adeiladu ar gyfer twf mwy hirdymor.



# 2 Y Darlun Ehangach

## Adferiad Economaidd Sir Gaerfyrddin


Ar gychwyn 2021, mae economi Sir Gaerfyrddin yn dal o dan ddylanwad trwm ymyraethau llywodraeth i gefnogi swyddi a sectorau busnes ac mae ansicrwydd o hyd wrth i'r cyfyngiadau amrywio gyda'r pandemig a'r amrywiol fesurau clo.

Mae'n dal i fod gryn dipyn o amwysedd ynghylch patrwm adferiad, yn ogystal ag effaith Brexit. Bydd yr adferiad yn araf, a gall gymryd llawer blwyddyn i economi Sir Gaerfyrddin adfer i'w lefel flaenorol, heb sôn am adennill y tir a gollwyd yn sgil yr argyfwng COVID-19 a'i effeithiau. Felly, y brif flaenoriaeth ar hyn o bryd ar gyfer adferiad Sir Gâr yw amddiffyn swyddi a diogelu busnesau. Mae pwyslais yn parhau hefyd ar yr heriau mwy hirdymor sy'n cyfyngu ar dwf yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys cynhyrchiant a chyflogau isel, diffygion sgiliau, rhy ychydig o fusnesau'n ehangu i weithredu ar raddfa uwch, a'r angen am fuddsoddi mewn seilwaith a safleoedd busnes modern.

Mae dau brif gonglfaen i adferiad economi Sir Gâr, sef pwysleisio'r lleol a gweithredu ar lefel leol, a gwneud yr holl economi'n fwy cystadleuol. Mae'r camau gweithredu i gefnogi'r adferiad yn canolbwyntio ar themâu allweddol – **Busnes, Pobl a Lle** ynghyd â blaenoriaethu pedair uchelgais drawsbynciol:

- **Cysylltedd digidol cwbl ddibynadwy a diwylliant digidol** – a fydd yn sail i adferiad a thwf ledled yr holl economi
- **Sgiliau** – cadw, ailsgilio, uwchsgilio a sicrhau bod gan bobl y sgiliau iawn i gyflawni'r swyddi a gaiff eu creu.
- **Economi werdd** – seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd, ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.
- **Economi deg a chydradd** a chefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg

**Ffigur 1 Dylanwadau strategol**



## Cyd-destun strategol

Caiff cyd-destun y cynllun ei ddylanwadu gan amgylchiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n wynebu'r Sir Gâr wledig, gan gynnwys technoleg, argyfwng hisawdd a datgarboneiddio, effeithiau parhaus COVID-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit).

Mae'r cyd-destun strategol hefyd yn cynnwys blaenoriaethau Cyngor Sir Gaerfyrddin, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Llywodraeth Cymru, ynghyd â dylanwad cynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chynlluniau Llesiant lleol.

Mae un o nodau allweddol y Ddeddf yn galw ar gyrff cyhoeddus i fod yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i amgylchiadau economaidd sy'n newid yn barhaus ac ymateb i'r eithaf ar gyfleoedd newydd am dwf. Gweithredir datblygu cynaliadwy drwy'r holl broses, yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried yr hirdymor, yn rhwystro problemau rhag digwydd neu waethygu, a mabwysiadu dull cyfannol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar bobl.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar sicrhau dyfodol cynaliadwy a llewyrchus i'r dref sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu, trwy hyrwyddo entrepreneuriaeth a thwf busnesau bach mewn ardaloedd lle mae canran uchel o'r bobl yn siarad Cymraeg.

**Ffigur 2 Dylanwadau strategol**

- Twf busnesau sefydledig
- Cryfhau'r economi sylfaenol
- Mwy o leoedd cyflogaeth i fusnesau newydd a busnesau sy'n tyfu
- Datblygu sgiliau i ddod i mewn i waith, ac aros a chamu ymlaen mewn gwaith
- Cynyddu'r defnydd o dechnoleg newydd, ymchwil a datblygu, awtomatiaeth a digideiddio
- Cynyddu cynhyrchiant, arallgyfeirio ac effeithlonrwydd amaethyddiaeth
- Trefi unigryw, deniadol a bywiog i fyw ynddynt ac ymweld â nhw
- Canol trefi yn gyntaf
- Seilwaith modern - trafnidiaeth - digidol - lleihau carbon
- Cynyddu cyfleoedd i fusnesau gan y sector cyhoeddus wrth gaffael
- Twf busnes a chyflogaeth sy'n cynnal y defnydd o Gymraeg

# 3 Castellnewydd Emlyn heddiw


Saif Castellnewydd Emlyn yn Nyffryn Teifi rhwng Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan ac mae'n enghraifft o dref farchnad draddodiadol sy'n gwasanaethu cymuned eang, a gwledig yn bennaf, o boptu Afon Teifi yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Mae'r dref yn cynnal amryw o gyflogwyr rhanbarthol mawr gan gynnwys Dairy Partners ynghyd â nifer o safleoedd diwydiannol ac iddynt raddfa meddiannaeth uchel sy'n cynnwys amrywiaeth o fusnesau gan gynnwys busnesau biotechnoleg a Thechnoleg Gwybodaeth. Mae'r dref hefyd yn cefnogi'r economi wledig yn uniongyrchol trwy'r farchnad da byw a masnachwyr bwyd anifeiliaid, a busnesau peiriannau a pheirianneg cysylltiedig. Mae diwydiannau nodedig eraill yn cynnwys adeiladu a nifer helaeth o wasanaethau a chrefftau lleol sy'n ffurfio'r economi sylfaenol.

Mae'r gefnwlad wledig yn cefnogi amrywiaeth helaeth o ddiwydiannau amaethyddol a diwydiannau'r tir gan gynnwys cynhyrchwyr bwyd a busnesau twristiaeth. Mae gan ganol y dref, sy'n drawiadol a hanesyddol, gymysgedd dda o siopau a gwasanaethau a'r rheini'n canolbwyntio'n benodol ar hwylustod, bwyd a diod a siopau arbenigol. Y tu allan i'r canol, mae'r ganolfan hamdden a'r ysgol uwchradd yn adlewyrchu rôl y dref fel anheddiad allweddol yng ngogledd y sir.

Yn gyffredinol, mae Castellnewydd Emlyn yn gweithredu fel cyrchfan bwysig a chanolfan wasanaethau ar gyfer anghenion cyflogaeth, cymunedol, addysg, chwaraeon a manwerthu'r ardal ehangach gan gynnwys Llangeler a Llandyfriog.

**Ffigur 3 Cyd-destun lleoliad**



## Darlun economaidd-gymdeithasol

Poblogaeth Castellnewydd Emlyn a'r gefnwlad yw 7,380 (mae hyn yn seiliedig ar wardiau Cenarth, Llangeler a Llandyfrïog). Mae cyfran o bobl sy'n siarad Cymraeg yng Nghastellnewydd Emlyn (49%) yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Sir Gaerfyrddin wledig (50%).

O gymharu â Sir Gâr wledig – o fewn y ddeng mlynedd ddiwethaf – mae'r ardal wedi profi:

- twf bach mewn poblogaeth
- poblogaeth gynyddol o bobl hŷn
- lleihad yn y boblogaeth oedran gwaith
- gweithgarwch economaidd a chyflogaeth lawn-amser is na'r cyfartaledd
- incymau aelwydydd sy'n is na'r cyfartaledd
- economi leol â sgiliau is
- lefelau uwch na'r cyfartaledd o weithio gartref a hunan-gyflogaeth
- prisiau tai sy'n uwch na'r cyfartaledd

Dengys y data fod rhan fawr o'r economi leol yn ddibynnol ar incymau rhan-amser, sgiliau isel a chyflogau is.

**Ffigur 4 Tueddiadau economaidd-gymdeithasol diweddar**

| | Poblogaeth | Oedran gwaith | Incwm gros aelwydydd | Prisiau tai canolrifol | Economaidd weithgar | Cyflogaeth lawn-amser |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Ardal wledig y Sir* | Cynnydd 1.8% | Lleihad 3% | £28,622 | £135k | 66% | 33% |
| *Ardal Castellnewydd Emlyn* | Lleihad 1.3% | Lleihad 3.8% | £26,520 | £154k - £180k | 63% | 25% |
| | **Gweithio o gartref** | **Hunan-gyflogedig** | **Galwedigaeth fwyaf** | **Dim sgiliau** | **Cymwysterau uwch** | **Cyflogir mewn amaethyddiaeth** |
| *Ardal wledig y Sir* | 7% | 14% | Crefftau medrus 19% | 25% | 30% | 6% |
| *Ardal Castellnewydd Emlyn* | 13% | 22% | Crefftau medrus 22% | 25% | 30% | 11% |

**Ffynonellau: Cyfrifiad ONS a NOMIS – Astudiaeth linell sylfaen**



Owen Davies Consulting

## Busnesau a chyflogaeth

Mae Castellnewydd Emlyn a'r ardal o'i chwmpas yn cefnogi amrywiaeth helaeth o weithgareddau busnes gyda dros 270 o fusnesau adnabyddedig, gan gynnwys y cyflogwr mwyaf (Dairy Partners), i lawr i gwmnïau micro, bach a chanolig eu maint. Mae Dairy Partners yn gweithredu ffatri gynhyrchion caws gyda droa 100 o weithwyr a 140 o ffermydd lleol yn cyflenwi llaeth o fewn radiws o 40 milltir. Yn ogystal â bod yn gyflogwr mwyaf y dref mae'r busnes hefyd yn gyswllt allweddol â'r gymuned amaethyddol.

Mae gan y dref gryfderau hefyd yn y sectorau bwyd a diod, technoleg gwybodaeth a biotechnoleg gan gynnwys Micropharm a Caws Cenarth. Mae'r farchnad da byw yng nghanol y dref yn dal i fod yn un o nodweddion hanfodol swyddogaeth economaidd a chymdeithasol yr ardal, marchnad sydd wedi tyfu'n sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn cau marchnadoedd rhanbarthol eraill.

Yn gyffredinol, ymddengys fod sail fusnes gadarn i economi'r dref, gan gynnwys cyflogwr mawr, ochr yn ochr â chwmnïau lleol sefydledig a rhai sy'n tyfu, a phresenoldeb asiantaeth cymorth busnes Antur Cymru (Teifi). Caiff y sectorau cyflogaeth mwyaf eu nodi fel:

- 16% masnach cyfanwerthu a manwerthu
- 13% iechyd dynol a gwaith cymdeithasol
- 11% amaethyddiaeth

Mae gan Gastellnewydd Emlyn ddwy ardal gyflogaeth sefydledig sydd wedi eu canolbwyntio i'r dwyrain o'r dref; Stad Ddiwydiannol Heol yr Orsaf sy'n eiddo i'r Cyngor Sir a Pharc Busnes Aberarad. Nodweddir y farchnad fasnachol leol gan y canlynol:

- lefelau iach o alw a meddiannaeth leol
- ystod a chymysgedd amrywiol o adeiladau, gan gynnwys parc busnes unswydd er bod y rhan fwyaf o'r stoc yn hŷn ac o ansawdd eilradd
- diffyg arwynebedd llawr addas i gefnogi busnesau presennol i dyfu ac ehangu
- diffyg deorfeydd bach ac unedau cychwynnol

Mae lefelau meddiannaeth yn uchel ac ychydig iawn o arwynebedd llawr i fusnesau sydd ar gael yn y dref, ac mae hyn yn bryder sylweddol o ran twf yn y dyfodol ac annog mentro newydd. Mae ychydig o fusnesau sydd heb ddigon o le i dyfu wedi ehangu trwy feddiannu amryw o unedau cychwynnol llai ar draws y dref. Ar yr un pryd, mae busnesau'n ehangu eu gweithrediadau trwy ail-leoli y tu allan i'r dref ee cyfleuster newydd Micropharm yng Nghilgerran.

## Economi'r dref

Mae gan ganol y dref dros 80 o fusnesau ac iddynt gymysgedd amrywiol a diddorol o fanwerthu, lletygarwch, gwasanaethau a swyddfeydd. Mae'r manwerthu'n cynnwys cymysgedd dda o brif gyfleusterau hwylustod (siopau bwyd Co-op a C K) a siopau annibynnol (cigyddion, deli, bwydydd arbenigol, pobyddion a siop ddiodydd trwyddedig). Mae cynnig amrywiol o ran nwyddau cymharol (heb fod yn fwyd), sy'n annibynnol yn bennaf ac mae'n cynnwys deunyddiau cartref, dillad, trydanol, gemwaith/celf/anrhegion, henebion, ffordd o fyw a chanolfan arddio fechan. Mae'r dref yn adnabyddus ymhellach i ffwrdd am ansawdd dillad ffasiwn i ferched, ac mae amryw o siopau arbenigol a chyrchfan yn ychwanegu at ansawdd ac atyniad y canol. Mae presenoldeb amryw o fusnesau cain, crefftau a busnesau ac iddynt sail foesegol hefyd yn rhoi teimlad gwreiddiol ac unigryw i ganol y dref.

Mae'r cynnig lletygarwch yr un mor gryf gydag amrywiaeth a dewis da o gaffis/bistro, siopau cludfwyd a thafarndai ynghyd â Gwesty'r Emlyn (a thŷ bwyta). Mae arwyddion o economi gyda'r nos ar lefel sylfaenol er nad oes fawr o gynnig gyda'r nos ar wahân i Theatr Atig.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau lleol sylfaenol yma hefyd gyda fferyllfa, optegwyr, salon harddwch / trin gwallt, cyfleusterau deintyddfa, swyddfa bost, tra bod cyfleusterau cymunedol lleol yn cynnwys Neuadd Cawdor, gorsaf heddlu a llyfrgell. Y prif wendid fu colli cyfleusterau bancio a pheiriannau ATM rhad ac am ddim yn y canol. Mae'r banciau agosaf yn Aberteifi a Chaerfyrddin.

Mae amryw o wasanaethau proffesiynol yn gweithredu o swyddfeydd ac maent yn cynnwys gwerthwyr tai, cyfreithwyr, cyfrifwyr/ymgynghorwyr ariannol a phenseiri sy'n ychwanegu at amrywiaeth a bywiogrwydd canol y dref.

Mae'r rhan fwyaf o ganol y dref o fewn Ardal Gadwraeth gyda ffryntiadau traddodiadol, neuadd y dref drawiadol a Thŵr Cloc. Mae'r adeiladau sydd wedi eu paentio'n lliwgar yn ychwanegu at naws ac atyniad cyffredinol canol y dref.

Er gwaethaf bywiogrwydd cyffredinol y canol, mae 10% o'r adeiladau'n wag ar hyn o bryd gan gynnwys amryw o unedau mawr ac anodd eu gosod.



## Economi Ymwelwyr

Ymddengys fod yr economi ymwelwyr ar raddfa lai o gymharu â lleoliadau arfordirol cyfagos er bod cryn botensial am dwf. Mae'r rhesymau dros ymweld â'r dref yn cynnwys y ganolfan siopau sy'n llawn cymeriad a lled-anghyffredin, adfeilion y castell a rhaglen ddigwyddiadau blynyddol gan gynnwys yr ŵyl fwyd, digwyddiadau tref fasnach deg a Nadolig Victoriaidd. Nid yw'r dref yn cynnig digon o weithgarwch i ddal pobl yn y dref am lawer mwy nag ychydig oriau ac adlewyrchir hyn yn y cyfanswm bach o lety dros nos gan gynnwys bwyty a sba Gwesty'r Emlyn a dyrnaid o leoedd gwely a brecwast a chyfleusterau carafannau/gwersylla yn Afon Teifi a Dolbryn.

Ond, tu allan i'r dref, mae yna sawl atyniad treftadaeth naturiol o amlygrwydd, gynnwys Cenarth Falls (rhan o'r Fenter Llwybrau Celtaidd), Canolfan Coracle Genedlaethol Cenarth, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol a rheilffordd Dyffryn Teifi (fel pob atyniad mae cyfyngiadau coronafeirws wedi cael effaith arnynt).

Mae beicio yn un o flaenoriaethau cyrchfannau ymwelwyr Sir Gaerfyrddin ac mae'r dref wedi cael ei hyrwyddo fel man cychwyn Taith Afon Teifi. Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol Sustrans 82 hefyd yn mynd trwy Gastellnewydd Emlyn ac yn cysylltu ag Abergwaun.



## Brand a marchnata

Er mwyn tyfu economi ymwelwyr Castellnewydd Emlyn, mae angen diweddaru ac atgyfnerthu'r marchnata ar-lein presennol i arddangos busnesau lleol, digwyddiadau a'r profiadau sydd gan yr ardal a'r gymuned i'w cynnig. Bydd hyn yn helpu dangos yr hyn sy'n wahanol am y dref ac yn adnewyddu'r ffordd mae Castellnewydd Emlyn yn brandio a chyfleu ei hun.


Ar hyn o bryd, mae'r wefan Croeso Castellnewydd Emlyn yn cyfleu'r ardal mewn modd cadarnhaol gan flaenoriaethu'r hanes a thynnu sylw at rai o'r atyniadau a gynigir. Mae'r safle'n cysylltu â thudalen Facebook fwy diweddar, sydd â rhyngweithio iach, ond cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r wefan yn teimlo'n flinedig ac angen ei diweddaru'n rheolaidd. Mae'r iaith a'r dôn yn awgrymu mai lle i bobl o'r genhedlaeth hŷn ymweld ag ef yw Castellnewydd Emlyn ac nad oes fawr i'w gynnig i deuluoedd nac i bob iau. Y teimlad cyffredinol yw nad yw Castellnewydd Emlyn yn lle bywiog na gwahanol.

Nid yw'r Cyngor Tref na dim o'r busnesau lleol na gwefannau digwyddiadau'r ardal yn ymddangos ar dudalen gyntaf y canlyniadau chwilio pan nodir 'Newcastle Emlyn' ynddynt a chyfyngedig yw eu heffeithiolrwydd i gynulleidfa ehangach. Mae gwefan digwyddiad yr Ŵyl Fwyd hefyd yn eithaf disylw a gallai gwneud mwy i ennyn diddordeb yn yr ŵyl, ei hanes neu gynigion yn y dyfodol. Ar lefel y sir, mae'r wefan Darganfod Sir Gâr yn fwy llwyddiannus wrth hyrwyddo Castellnewydd Emlyn law yn llaw â Dyffryn Teifi, gan gynnwys ei nodwedd '36 awr yng Nghastellnewydd Emlyn'. Ategir hyn gan Tripadvisor a'i adolygiad cynhwysfawr o bethau i'w gwneud, llety a thai bwyta.

## Trafnidiaeth a symudiad

I raddau helaeth, mae'r ffyrdd sy'n gwasanaethu Castellnewydd Emlyn yn rhwydwaith o ffyrdd gwledig dosbarthiadau A a B ac is. Mae'r cysylltiadau'n dameidiog i raddau helaeth wrth deithio o'r gogledd i'r de gyda theithio mwy uniongyrchol o'r dwyrain i'r gorllewin. Y brif her yw darparu trafnidiaeth integredig gynaliadwy i'r ardal.

**Ffigur 5 Patrymau Teithio i'r Gwaith**



**Ffynhonnell: 2011 Census - DataShine: Commute**

O fewn y dref, mae lefelau traffig ynghyd â'r gerbytffordd/palmentydd cul yn enwedig ar Stryd y

Sycamorwydden yn effeithio ar ddiogelwch cerddwyr ac ansawdd y profiad o ganol y dref. Mae graddau da o leoedd parcio gan gynnwys y prif Faes Parcio.

Mae patrymau teithio i'r gwaith yn rhoi darlun o ymddygiad cymudwyr a dealltwriaeth o'r nifer o bobl sy'n teithio o ardal y dref i le gwaith (dangosir mewn coch) neu o rywle arall i'r dref i weithio (dangosir mewn glas). Mae'r ffigur yn dangos sut mae Castellnewydd Emlyn yn ddibynnol hefyd ar Gaerfyrddin ac Aberteifi am gyflogaeth.

## Band Eang a Chysylltedd Digidol

Ymddengys fod gan ganol y dref a'r ardal wledig sy'n union o'i chwmpas gysylltedd da er ei bod yn glir fod ardaloedd yn y gefnwlad ehangach heb fand digonol o ran lled. Yn gyffredinol, mae 888 (71%) o'r 1,235 o safleoedd yn ardal cod post Castellnewydd Emlyn heb fand llydan cyflym iawn.

## Cynllunio, Datblygu a'r Amgylchedd


Mae twf yng Nghastellnewydd Emlyn wedi ei gyfyngu gan bresenoldeb Afon Teifi gydag ardaloedd helaeth i'r dwyrain a'r gorllewin mewn perygl o ddioddef llifogydd, ac mae'r tref yn ardal flaenoriaeth ar gyfer gweithiau Cyfoeth Naturiol Cymru i atal llifogydd yn y dyfodol. Mae presenoldeb y castell a'r Ardal Gadwraeth hefyd yn cyfyngu ar ddatblygu yn y dyfodol o fewn llawer o ganol y dref.

O safbwynt twf a datblygiad yn y dyfodol, mae'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn ystyried yr ardal fel un addas ar gyfer twf cyfyngedig gyda thri dyraniad ar gyfer tai (51 o gartrefi newydd). Fodd bynnag, nid oes dim tir cyflogaeth newydd wedi cael ei glustnodi y tu hwnt i'r ardaloedd presennol a ddiogelir ar gyfer cyflogaeth.

Mae gwerthwyr tai lleol yn adrodd yr angen am fwy o gartrefi, wedi eu gyrru gan alw oddi wrth deuluoedd lleol a phobl yn symud i gartrefi llai neu i ymddeol, gyda galw helaeth am dyddynod gwledig, gan gynnwys pobl yn symud i mewn i'r ardal. Yn gyffredinol, mae'r angen am dai llai drud, i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng prisiasu tai uwch a chyflenwad cyfyngedig o gartrefi addas mewn ardaloedd lleol, yn enwedig ar gyfer un person a chyplau.

Mae absenoldeb unrhyw ddyraniad tir ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol i'r dref yn bryder, yn enwedig yn wyneb y galw uchel a diffyg cyflenwad o stoc o faint bach a chanolig. Fodd bynnag, mae safleoedd ar gael sy'n cynnig y potensial am ailddatblygu.

## Ffigur 6 Rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol






Owen Davies Consulting

## Cymraeg yn yr Economi Lleol

Fel nodwyd yn y darlun economaidd-gymdeithasol, mae'r canran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn ward Cenarth (49%) yn fach llai na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Gaerfyrddin wledig (50%) ac wedi lleihau gan fwy na 10% rhwng 2001 a 2011. Arweinydd hyn at y dewisiad o ward Cenarth ar gyfer y Cynllun Ardaloedd Blaenoriaeth Sir Gâr gan Fenter Iaith. Fel rhan o'r Ardaloedd Blaenoriaeth mae Menter wedi bod yn asesu'r gefnogaeth a defnydd o Gymraeg yn yr ardal, a gweithio â grwpiau lleol i helpu tyfu'r iaith ar lefel sylfaenol.

Cafodd y defnydd a chefnogaeth o Gymraeg yn yr economi lleol eu hasesu yn yr adroddiad cynnydd. Nododd yr adroddiad cynnydd bod yna defnydd annigonol o Gymraeg gweledol, nifer annigonol o staff a all siarad Cymraeg a siaradwyr Cymraeg sefydlu a chynnal busnesau eu hunain ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth leol, yn ogystal â diffyg cefnogaeth o fusnesau lleol.

Argymell Menter Iaith nifer o gamau i gefnogi'r iaith yn yr economi lleol, cynnwys sefydliad o Gwlwm Busnes neu sesiwn Brecwast Busnes a chydweithio â busnesau lleol i gynyddu'r nifer o gyfleoedd mae gan drigolion lleol i ddefnyddio Cymraeg.

Mae Helo Blod yn gweithio i gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn yr ardal a gweithredu'r argymelliadau Menter Iaith; mae gan Helo Blod a Menter Iaith cysylltiad cryf. Mae Helo Blod yn darparu cymorth unigol i fusnesau trwy eu rhwydwaith o swyddogion lleol a chefnogi busnesau i intergreddio Cymraeg mewn i'w fusnes â gwasanaethau cyfieithu a gwirio testun.

**Ffigur 7 Tabl o asesiadau o gefnogaeth am Gymraeg yn yr economi, gwasanaethau ac is-adeiledd yn ward Cenarth**

**Agwedd 5: Yr Economi, Gwasanaethau ac Is-adeiledd:** (a) Taflen fapio — Digonol / Annigonol / Dim / Amh.

| | Elfennau | | Nodweddion | Digonol | Annigonol | Dim | Amh. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Busnesau lleol | 5.2.1 | Oes digon o amrywiaeth o fusnesau yn cynnig gwasanaethau i'r gymdogaeth leol? E.e. siop, tafarn, garej, Swyddfa'r Post ac ati. | | X | | |
| | | 5.2.2 | Ydy'r Gymraeg yn cael defnydd gweledol digonol o fewn busnesau'r ardal? | | X | | |
| | | 5.2.3 | Oes gwerth digonol yn cael ei roi ar y Gymraeg (gan gynnwys sgiliau dwyieithog ar gyfer y gwaith) gan fusnesau'r ardal? | | X | | |
| | | 5.2.4 | Oes cyfran digonol o staff busnesau lleol yn siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth i'r gymdogaeth? | | X | | |
| | | 5.2.5 | Ydy pobl leol yn cefnogi busnesau lleol yn ddigonol? | | X | | |
| | | 5.2.6 | Ydy siaradwyr Cymraeg yn sefydlu ac yn cynnal busnesau eu hunain ac yn cynnig cyfleoedd gwaith lleol? | | X | | |
| 5.2 | Cyfleusterau Cymdeithasol | 5.3.1 | Oes digon o gyfleusterau cymdeithasol addas ar gyfer anghenion y gymdogaeth? | | X | | |
| | | 5.3.2 | Ydy'r adeiladau sydd ar gael yn ddigon cyfforddus a deniadol at ofynion cyfoes? | | X | | |
| | | 5.3.3 | Ydy'r Gymraeg yn derbyn statws digonol o fewn cyfleusterau cyhoeddus lleol? | | X | | |
| | | 5.3.4 | Oes digon o gyfleusterau hamdden a chwaraeon o fewn cyrraedd hwylus? | X | | | |

**Ffynhonnell: Adroddiad cynnydd Menter Iaith ar gyfer ward Cenarth**

# 4 Ystyriaethau a Chyfleoedd Lleol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymrwymiad cyllid i gefnogi camau gweithredu a blaenoriaethau'r cynllun twf yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. | Prinder sylweddol o unedau cyflogaeth modern, yn enwedig deorfeydd a lleoedd i fusnesau dyfu. | Trefn gynllunio fwy cadarnhaol ac ymatebol i gefnogi, blaenoriaethu a chyflawni buddsoddi / adfywio lleol. | Pryder ynghylch diffyg cyfleusterau bancio lleol. | Annog defnydd hyblyg o unedau gwag canol y dref, gan gynnwys y cyfle am unedau mwy fforddiadwy a lleoedd gwaith hyblyg neu i'w rhannu, gan gynnwys canolbwynt menter digidol / cymdeithasol. | Angen am well arwyddion i dynnu sylw a chyfeirio ymwelwyr i mewn i ganol y dref. | Gwelliannau ansoddol i amgylchedd canol y dref, yn enwedig er mwyn mynd i'r afael ag effaith llif traffig sy'n mynd drwy'r canol. |
| Pryderon ynghylch rheolaeth parcio yng nghanol y dref. | Moderneiddio marchnata a brand y dref a'i busnesau law yn llaw â strategaeth farchnata i'w hyrwyddo fel cyrchfan sy'n rhaid ymweld â hi. | Gwneud defnydd gwell o ardal Afon Teifi a'r castell, gan gynnwys rhodfa well ar lan yr afon. | Nifer cyfyngedig o dai yn cael eu codi, sy'n effeithio ar y cyflenwad o dai fforddiadwy a thwf cyflogaeth y dref. | Angen am fwy o ddewis ac amrywiaeth o gyfleusterau ymwelwyr i ehangu'r cynnig, yn enwedig i bobl ifanc a theuluoedd. | Gwelliant mewn cysylltedd digidol a hyn yn cael ei gefnogi gan sgiliau a hyfforddiant addas mewn technoleg gwybodaeth. | Hyrwyddo llwybrau lleol diogel i gerddwyr a beicwyr a'u cysylltu â chanol y dref. |

# 5 Camau â blaenoriaeth

Ymddengys fod economi Castellnewydd Emlyn yn amrywiol a bywiog, er bod amryw o wendidau i ymdrin â hwy a chyfleoedd newydd i'w datblygu. Pwyslais allweddol y Cynllun Twf yn y tymor byr a chanolig yw mynd i'r afael â'r diffyg lleoedd gweithio er mwyn cynnal y busnesau presennol a chaniatáu i swyddi newydd gael eu creu.

Mae'r Cynllun yn ceisio datblygu a hyrwyddo canol unigryw, trawiadol a hanesyddol y dref fel cyrchfan fywiog i drigolion lleol ac ymwelwyr, ac adeiladu ar yr economi ymwelwyr i fanteisio ar y twf yn y farchnad wyliau fewnol o fewn Prydain. Mae gan y dref lawer o asedau, gan gynnwys ei hamgylchedd naturiol ac adeiledig hanesyddol, ynghyd â mudiadau cymunedol lleol gweithgar a  lefel gynhwysfawr o gyfleusterau a gwasanaethau lleol sy'n gwasanaethu ardal eang.Y prif faterion i ganolbwyntio arnynt fydd:

**Blaenoriaethau Strategol**

- Arwynebedd ar gyfer cyflogaeth – er mwyn cefnogi busnesau sy'n cychwyn o'r newydd ac ehangu busnesau gan gadw cwmnïau rhag symud allan o'r dref.
- Gwella tir y cyhoedd yng nghanol y dref – mynd i'r afael ag effaith traffig, parcio a hyrwyddo amgylchedd diogel a deniadol i gerddwyr a busnesau.
- Marchnata a brandio – wedi eu harwain yn lleol i hyrwyddo'r dref, busnesau a'i hatyniadau fel cyrchfan.
- Diffyg tai yn cael eu cyflawni – mwy o gartrefi fforddiadwy i bobl ifanc ac i gefnogi'r economi.
- Cerdded a beicio – gwell cysylltiadau cerdded a beicio rhwng y dref a'r cymunedau o'i chwmpas.
- Seilwaith digidol. gan gynnwys tref glyfar ('SMART') ac iddi gysylltedd dibynadwy a strategaethau twf, marchnata ac ymwelwyr seiliedig ar ddata

Mae camau i gefnogi adferiad a thwf yn ymdrin â'r tair prif thema a grybwyllwyd eisoes – Busnes, Pobl a Lle – gyda phedair blaenoriaeth drawsbynciol ar gyfer creu cysylltedd digidol cwbl ddibynadwy, gwella sgiliau i gyflawni'r swyddi a gaiff eu creu, economi carbon isel a gwyrdd ac economi deg a chydradd sy'n cefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Y meysydd sydd â blaenoriaeth ar gyfer adferiad a thwf yw:

## 1 – Adferiad COVID-19

Y pandemig Covid-19 yw'r argyfwng iechyd cyhoeddus ac economaidd mwyaf ers cenedlaethau. Mae wedi cael effaith dramatig ar gymunedau, yr economi a sut rydym yn byw a gweithio. Mae wedi'n hatgoffa ni y gall y lleoedd rydym yn byw a gweithio ynddynt fod yn fregus ar adegau.

Roedd ansawdd a hygyrchedd y dref a'r cefn gwlad yn hynod bwysig i iechyd a lles pobl yn ystod y cyfnodau clo. Mae gwerthfawrogiad torfol wedi bod o werth llecynnau gwyrdd, llwybrau cerdded a beicio a'r siopau a'r amwynderau lleol.

Ymysg y llawer o heriau pwysig yn y cyfnod adfer mae'r camau brys i ddiogelu busnesau a chyflogwyr lleol a phenderfynu pa newidiadau mewn ymddygiad yn sgil y pandemig sy'n dechrau ymddangos fel nodweddion parhaol o fywyd a gwaith. Mae gan y rhain oblygiadau i'r dref, oherwydd mae pobl yn defnyddio lleoedd yn wahanol, yn teithio llai ac yn treulio mwy o amser yn lleol ac yn gweithio o gartref. Rhaid i'r cynllun adfer a thwf ymateb i'r newidiadau hyn a chyfrannu at adferiad mwy cynaliadwy, gan lunio dyfodol y dref o amgylch gweledigaeth am le mwy gwydn yn economaidd.

Bydd effaith y pandemig yn dal i gael ei deimlo am beth amser a gellir cymryd y camau canlynol i gefnogi busnesau a'r dref:

Nodwyd angen i ddiogelu a chreu swyddi, yn enwedig yn rhai o'r sectorau a gafodd eu taro galetaf, gan gynnwys siopau, hamdden a lletygarwch, a chefnogi busnesau sy'n profi heriau o ran sgiliau yn sgil y pandemig ee gyda sgiliau digidol a TG, marchnata ac arallgyfeirio gan gynnwys datblygu marchnadoedd newydd, tendro lle bo'n addas (yn gysylltiedig â chyfleoedd caffael lleol), mesurau effeithlonrwydd etc.

## 2 – Cefnogi twf busnesau

Lle bo diffyg seilwaith cyflogaeth i gynnal anghenion y presennol neu'r dyfodol, gall gwydnwch a chynaliadwyedd ardal gael eu tanseilio, gan gyfrannu o bosibl at ddirywiad. Mae diffyg cyfleoedd am waith yn rheswm allweddol hefyd y tu ôl i ddiboblogi gwledig, yn enwedig yn y gweithlu iau. Trwy gefnogi ac annog twf cwmnïau sydd wedi sefydlu'n lleol, yn enwedig mewn diwydiannau mwy arbenigol, bydd hyn yn helpu creu cyflogaeth hirdymor â thâl uwch, cadw gweithwyr, ehangu'r sail sgiliau a helpu cynnal cymunedau lleol.

Yr economi sylfaenol yw asgwrn cefn yr economi wledig ac mae'n cynrychioli'r rhannau hynny o'r economi sy'n cynnal ein hanghenion bob dydd (gofal cymdeithasol, siopau, twristiaeth, bwyd, diod, adeiladu, ynni etc). Yn yr un modd, mae prosesu bwydydd a diodydd lleol o gynhyrchion amaethyddol a garddwriaethol yn ddiwydiant sy'n tyfu. Mae ar yr holl fathau hyn o fusnesau angen cymorth busnes a seilwaith cyflogaeth tebyg megis lleoedd gweithio fforddiadwy o ansawdd da gyda'r cysyltedd digidol gorau bosibl.

### A) Buddsoddi mewn safleoedd busnes i gefnogi busnesau sy'n cychwyn o'r newydd, a thyfu ac ehangu busnesau


Mae diffyg lleoedd gweithio addas ar gael i gefnogi twf busnesau micro a bach. Fodd bynnag, mae nifer o gyfleoedd i greu lleoedd newydd i fusnesau naill ai trwy safleoedd datblygu newydd, defnyddio adeiladau cyhoeddus sydd dros ben, cael gafael ar adeiladau gwag, neu sefydlu lleoedd gwaith newydd i'w rhannu.

Mewn ardaloedd gwledig lle nad oes fawr o ddiddordeb gan ddatblygwyr ar raddfa fawr, mae gan y sector cyhoeddus hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth weithio gydag amrywiaeth o ddatblygwyr a thirfeddianwyr lleol llai i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddatblygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â'r bwlch hyfywedd rhwng cost adeiladu a moderneiddio lleoedd cyflogaeth newydd a'r incwm rhenti, a rôl ddatblygu economaidd bwysig wrth arwain datblygwyr bach trwy'r broses gynllunio.

Mae'r cyfleoedd yn cynnwys:

- Tir ar Lôn Tanyard – Y cyfle tir llwyd ar ymyl canol y dref sy'n cynnwys mathau masnachol o ddefnydd, gan gynnwys garej, ystafell arddangos a swyddfa ynghyd â maes parcio cyhoeddus. Mae gan y safle'r budd o ganiatâd cynllunio am siop fwyd gyda lle parcio cysylltiedig. Fodd bynnag, mae lleoliad canolog a graddfa'r safle yn cynnig potensial am gymysgedd o fathau o ddefnydd, megis cyflogaeth a phreswyl.
- Tir ar Heol yr Orsaf – Mae safle Castle Motors yn cynrychioli ardal tir llwyd fawr ac amlwg gerllaw ystâd ddiwydiannol Heol yr Orsaf. Fel lleoliad y tu allan i'r canol, mae ganddo'r budd o ganiatâd cynllunio am gyflogaeth gymysg a siop fwy. Dylid ystyried dewisiadau am symud ymlaen gydag elfen gyflogaeth y datblygiad fel y bwriadwyd yn wreiddiol neu ar radda fwy.
- Ymchwilio cyfleoedd i ailddatblygu a / neu ddwysáu tir cyflogaeth yn y dref, lle bo hynny'n addas.

**Ffigur 8 Tir ar Lôn Tanyard**




**Ffigur 9 Tir ar Heol yr Orsaf**






Owen Davies Consulting

## B) Canolfannau gweithio a lleoedd gweithio i'w rhannu

Gall newidiadau i arferion gweithio a'r diddordeb a'r gallu cynyddol i weithio'n agosach at gartref ac o bell o brif swyddfeydd arwain at fwy o alw i fyw mewn ardaloedd gwledig a gwella cyfleoedd i helpu cadw'r boblogaeth sydd mewn oedran gwaith. Mae'r camau sy'n helpu darparu lleoedd gweithio hyblyg yn agosach at y cartref yn cynnwys:

- Astudiaeth ddichonoldeb – astudiaeth leol i ymchwilio graddau penodol y galw a'r gofynion gan boblogaeth y dref a'r ardal wledig o'i chwmpas.
- Ymchwilio i'r potensial am i ganolbwynt gwaith newydd i'r sector cyhoeddus gael ei greu mewn trefi gwledig i gynnal gweithio hyblyg ledled y sir.

## C) Ailddefnyddio adeiladau gwag a rhai a dan-ddefnyddir

Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd am amrywiaeth o gamau mentro ac adfywio ffisegol.

- Mae eiddo yng nghanol y dref yn cynnig cyfleoedd am safleoedd dros dro ('maker') i arbrofi gyda syniadau busnes newydd, yn enwedig i bobl ifanc ddod i chwarae rhan weithgar yn y gymuned a datblygu sgiliau mentro. Mae darparu lleoedd hyblyg, fforddiadwy yn ystyriaeth bwysig wrth gefnogi busnesau bach lleol annibynnol.
- Safleoedd busnes newydd – naill ai ailddefnyddio adeiladau sector cyhoeddus sydd dros ben neu fynd ati'n ddethol i gaffael adeiladau allweddol gwag sydd wedi gwneud cyfraniad ehangach i adfywiad ffisegol ac economaidd y dref.

Mae amryw o adeiladau amlwg a gwag yng nghanol y dref gan gynnwys hen fanciau Barclays a Lloyds, a'r adeilad Co-op yn y dyfodol yn dilyn symud i'r Ffordd Newydd. Mae'r fenter cymunedol i adfywio Neuadd Emlyn yn gyfle arall i gynnwys lle gweithio hyblyg newydd.

Mae adeiladau gwag ac a danddefnyddir yng nghanol y dref hefyd yn cynnig cyfleoedd i ailddefnyddio a defnyddio i ddibenion eraill trwy ehangu'r cymysgedd o fathau o ddefnydd, megis cyflogaeth, preswyl (gan gynnwys fforddiadwy), dibenion cymunedol, addysg a hamdden/lletygarwch, sydd gyda'i gilydd yn ehangu gweithgarwch a bywiogrwydd.

## D) Cefnogi twf busnes o fewn cwmnïau sefydledig

Mae twf yr economi leol yn gysylltiedig â llwyddiant cyflogwyr mwy y dref, ac yn enwedig, cwmnïau sefydledig lleol sydd â'u penderfyniadau wedi eu gwreiddio'n gadarn yn y gymuned. Mae pwyslais cryf ar gynyddu'r nifer o gwmnïau sefydledig, yn ogystal â sefydlu sail gadarnach o fusnesau canolig eu maint (c.50 o weithwyr) sy'n gallu gwerthu'r tu allan i Gymru.

- **Busnesau Canolig eu Maint** - Mae nifer o gwmnïau sefydledig a chanolig eu maint wedi eu lleoli yn Sanclêr. Mae'r mesurau i gefnogi eu twf yn cynnwys:

- Cyd-drafod â chyflogwyr blaenllaw i adnabod cyfleoedd buddsoddi yn y dyfodol a meysydd o gymorth yn y dyfodol
- Help i gefnogi uwchsgilio'r gweithlu presennol a hyfforddi ac ailsgilio gweithwyr y dyfodol
- Ymchwilio cyfleoedd i'r economi leol o fewn eu cadwyni cyflenwi presennol

- **Micro-fusnesau** - Neilltuo a thargedu cymorth ar gyfer y cam nesaf o dwf ymysg micro-fentrau bach, sy'n aml yn gwmnïau a berchnogir gan deuluoedd a phobl hunan-gyflogedig o fewn y gymuned.

### E) Hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn fusnes

Annog pobl i ddysgu a siarad Cymraeg mewn amgylchedd busnes, i helpu i'w cysylltu ag ystod ehangach o bobl a chyfleoedd yn ogystal â diwylliant a threftadaeth Cymraeg. Mae cefnogaeth ar gael trwy Helo Blod, sy'n cynnwys swyddog sy'n gwasanaethu Gorllewin Sir Gaerfyrddin, yn gweithio gyda Menter Iaith i alluogi busnesau a sefydliadau i gyflwyno bach o Gymraeg i'w busnes trwy'r gwasanaeth cyfieithu a gwirio testun.

### F) Amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd

Mae llawer o amaethyddiaeth yr ardal yn y sector llaeth, ac ar hyn o bryd, does gan Sir Gaerfyrddin ddim cyfleuster ar gyfer prosesu llaeth yn uniongyrchol; yn wyneb hyn, mae'r Tasglu Gwledig wedi awgrymu ymchwilio i gyfleuster micro/macro prosesu llaeth seiliedig ar fodel cydweithredol. Mae hefyd yn gefnogol i fusnesau seiliedig ar fwyd bach a chanolig eu maint a sefydlu unedau cynhyrchu i gefnogi cynhyrchion bwyd o werth ychwanegol, a allai gynnwys cawsiau arbenigol, hufen ia a chynhyrchion llaeth eraill sy'n gallu denu premiwm ar sail tarddiad lleol.

Y nod yw cefnogi mentrau sy'n creu busnesau o werth uwch a mwy cynhyrchiol trwy gynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd ffermio. Mae'r cynigion yn y cynllun am leoedd gweithio modern, seilwaith digidol a marchnata a hyrwyddo yn ceisio cefnogi'r nod hwn a chyfrannu tuag ato.

## 3 – Tref a chefn gwlad digidol-glyfar

Mae technoleg ddigidol wedi chwarae rhan bwysig wrth alluogi busnesau a chymunedau i addasu yn ytod y pandemig COVID 19. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gweithio ar hyn o bryd gyda llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig i gyllido busnesau, gweithwyr cyflogedig a chymunedau i fanteisio ar yr holl fuddion sy'n cysylltiedig â chysylltiadau rhyngrwyd cyflymach a mwy dibynadwy a datblygu rhaglenni digidol wi-fi i hyrwyddo trefi marchnad ee negeseuon hysbysu i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â threfi. Mae'r cyfleoedd i weithredu yn cynnwys:

- Sicrhau bod cysylltedd gigabit-alluog ar gael i'r holl gymuned a sicrhau bod yr holl drigolion gwledig a a phob busnes bach gyda llai na 100mb yr eiliad yn gallu elwa o fentrau'r llywodraeth i uwchraddio band eang, ee Cronfa Uwchraddio Band Eang. Mae hyn yn golygu cronni'r galw a defnyddio gwybodaeth am anghenion lleol i fargeinio am welliannau gyda darparwyr telecom.

- Mae'r dref SMART yn cyfuno'r defnydd o ateb Wi-Fi i'r dref gyda dadansoddiad rheolaidd o'r data a gesglir fel y caiff ei rannu gyda busnesau i'w galluogi i ennill dealltwriaeth o gwsmeriaid wrth farchnata. Mae dadansoddeg o'r fath yn cynnwys tueddiadau ymwelwyr fel: cyfraddau troedio; amser a dreulir; dyddiau prysuraf yr wythnos etc; mesur llwyddiant digwyddiad i gyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol; gellir ei ddefnyddio i ddenu busnes newydd.
- Mae'r Rhyngrwyd Pethau a thechnoleg LoRaWAN yn rhwydwaith arloesi newydd sy'n cefnogi arloesedd busnesau a chymunedau. Mae'r dechnoleg yn newydd ac yn ffurfio rhan o ddatblygu'r cyfuniad iawn o seilwaith cysylltedd, ymwybyddiaeth, sgiliau a chymorth i alluogi busnesau a thrigolion i ffynnu a manteisio'n llawn ar y chwyldro digidol.
- Hyfforddiant digidol – nid yw technoleg ddigidol ond cystal â'r sgiliau a'r hyder sydd yno i'w defnyddio. Bydd hyfforddiant lleol yn hanfodol er mwyn uwchsgilio, rhannu gwybodaeth ac annog y defnydd o dechnoleg ar draws y dref farchnad.

## 4 – Tir cyhoeddus canol y dref


### A) Tir y Cyhoedd

Mae gan Gastellnewydd Emlyn ganol tref sy'n ddeniadol a llawn cymeriad, er bod cyfleoedd i wella golwg ac amlygrwydd y prif byrth a'r lle sydd ar gael i gerddwyr o fewn amgylchedd o bellter cymdeithasol a diogel rhag COVID.

Y brif her yw rheoli swm mawr o draffig sy'n mynd drwy'r canol ar yr A475 a'r tyndra sy'n digwydd pan ddaw'r strydoedd yn gul. Gall problemau o barcio anghyfreithlon ar y stryd hefyd gyfrannu at yr anawsterau symud a brofir yng nghanol y dref.

Mae cyfleoedd yn bodoli i archwilio a nodi cyfleoedd realistig i wella'r amgylchedd cyhoeddus ('public realm') yng nghanol y dref er mwyn creu amgylchedd am gerddwyr sydd yn fwy deniadol a diogel gan adnabod effaith traffig trwodd. Byddai'r fenter hefyd yn rhoi cyfle i adolygu'r rheolaethau parcio, cynnwys adolygu gweithrediad o fesurau gorfodi newydd. Yng nghyd-destun y pandemig coronafeirws, byddai angen i'r cynllun ystyried y cyfleoedd ar gyfer creu seddi allanol ychwanegol ac ardaloedd dan do i gefnogi'r sector lletygarwch y dref.

**Ffigur 10 Tir y Cyhoedd**


Neuadd Emlyn Hall
Co-op building
Public realm opportunities
Car park
Market
Recreation Ground
Pav
Ysgol Y Ddwylan
War Meml
Liby
PW
Mus
Castle (remains of)
Old Mill Race
A475
BRIDGE STREET
PO
F Sta
BLAENWERN
OLD GRAIG STREET
CASTELL NEWYDD EMLYN / NEWCASTLE EMLYN

### B) Bancio

Mae colli pob un o fanciau'r stryd fawr a'r peiriannau ATM rhad ac am ddim yng nghanol y dref wedi bod yn ergyd fawr i statws Castellnewydd Emlyn fel prif ganolfan gwasanaethau gwledig, ac mae wedi effeithio'n uniongyrchol ar y ffordd mae busnesau'n gweithredu gydag arian parody n eu busnes. Mae sgil-effeithiau wedi bod hefyd ar gyfraddau troedio ac ar yr economi ymwelwyr. Mae rhanddeiliaid wedi cynnig bod Castellnewydd Emlyn yn dod yngynllun peilot ar gyfer ailgyflwyno cyfleusterau banc a pheiriannau ATM rhad ac am ddim. Byddai angen cefnogaeth i gyd-drafod â'r diwydiant bancio i lobïo'n gadarnhaol am fodel newydd a chynllun peilot am wasanaethau bancio gwledig helaethach.

## 5 – Cerdded a beicio

Bydd blaenoriaethu cerdded a beicio a chefnogi gweithredu'r Ddeddf Teithio Llesol yn helpu creu rhwydwaith mwy cynhwysfawr o lwybrau sy'n cysylltu lleoedd mae pobl angen mynd iddynt ar deithiau bob dydd ac ar gyfer teithio i'r gwaith.

Mae cyfleoedd yn bodoli i ymchwilio mewn i'r potensial i wella cysylltiadau cerdded a beicio rhwng y dref a'r aneddiadau gwledig cyfagos er mwyn creu cysylltiadau diogel i drigolion a thwristiaid (cynnwys y twristiaid sy'n aros tu allan i'r dref). Mae'r fenter leol Trac Teifi yn cynrychioli enghraifft o'r math o fenter a all fodoli.

## 6 – Economi ymwelwyr

### A) Arwyddion i ymwelwyr

Mae angen arwyddion cydgysylltiedig ac effeithiol i ymwelwyr ar y prif ffyrdd sy'n dynesu at y dref, a fyddai'n tynnu sylw teithwyr sy'n anelu am y trefi arfordirol a'r atyniadau gerllaw. Mae'r rhan fwyaf o naws hyfryd ac atyniadau siopau canol y dref wedi eu cuddio o'r golwg ar yr A484 a byddai strategaeth ddychmygus o ran arwyddion a gwybodaeth yn fwy effeithiol wrth ddenu ymwelwyr sy'n mynd heibio tuag at canol y dref a'i chyfleusterau gan gynnwys lle parcio, ac annog arosiadau dros nos. Bydd hyn yn bwysig yn wyneb twf y farchnad wyliau fewnol o fewn Prydain.

### B) Atyniadau ymwelwyr

Mae angen ychwanegu mwy o amrywiaeth a chymeriad i'r math o atyniadau a gweithgareddau ymwelwyr sy'n agos i ganol y dref. Byddai gweithgareddau sy'n addas ar gyfer 'tywydd gwlyb' ac sy'n tynnu sylw pobl ifanc a theuluoedd, yn enwedig, yn helpu tyfu'r economi ymwelwyr. Byddai cyfleoedd sy'n gydnaws â syniadau ar gyfer creu dibenion newydd i adeiladau gwag ac adeiladau a danddefnyddir yn dod â buddion adfywio ehangach i'r dref, fel dewis ehangach o lety i ymwelwyr.

Enghreifftiau arall yn cynnwys, mae gweithgareddau cymdeithasol cystadleuol neu gweithgareddau awyr agored sy'n gysylltiedig â'r afon a'r ardal leol yn ogystal â arddangos diwylliant a threftadaeth Gymreig a mwy cynnyrch lleol fel bwyd

a diod. Mae'r enghreifftiau'n cynrychioli'r math o brofiadau am deuluoedd y gellir ymchwilio iddynt a'u hannog yng nghanol y dref.

Mae gan y dref y fantais o'r castell a'r lleoliad ar lan yr afon, sydd ill dau yn asedau craidd, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd da am wella'r defnydd ohonynt trwy hyrwyddo, gwell llwybrau, a gwybodaeth a hygyrchedd i apelio at ymwelwyr.

**C) Twristiaeth Beicio**

Mae beicio yn flaenoriaeth allweddol i economi ymwelwyr Sir Gaerfyrddin gyda'r ardal leol yn cefnogi rhwydwaith o deithiau beicio cyhoeddedig a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Mae gan fentrau lleol fel llwybr Trac Teifi hefyd y potensial i ddatblygu hygrededd yr ardal i feicwyr. Mae'r cyfle'n bod i annog mwy o ddarparwyr llety i ennill yr achrediad 'Croeso i Feicwyr' ar gyfer lleoedd i aros.

**D) Digwyddiadau**

Mae'r dref eisoes yn adnabyddus am ei hamrywiaeth o ddigwyddiadau tymhorol, gan gynnwys yr Ŵyl Fwyd, Carnifal yr Urdd a'r Nadolig Victoriaidd. Y nod yw cefnogi grwpiau lleol a mudiadau sydd y tu ôl i'r digwyddiadau hyn sy'n bod eisoes i'w helpu nhw i dyfu a datblygu, law yn llaw ag ymchwilio i gyfleoedd newydd am ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn.

## 7 – Hyrwyddo Castellnewydd Emlyn

Wrth i'r economi ddod ati ei hun o'r pandemig ac wrth i newid cadarnhaol ddigwydd, bydd angen i Gastellnewydd Emlyn gyfleu delwedd ddeniadol o'r dref a'i busnesau i'r gymuned leol ac i ymwelwyr. Mae dulliau a awgrymir yn cynnwys:

- Menter farchnata cyrchfan i ddewis y negeseuon craidd a'r themâu a'r straeon allweddol a'r rhesymau dros ymweld gan gynnwys profiad siopa a hamdden deniadol y dref, busnesau arbenigol, cynhyrchwyr a gweithgareddau lleol.
- Yn ogystal ag ymgyrch fawr sy'n gweiddi'n uchel o un brif ffynhonnell am y dref a'r ardal gyfagos, y cynnig yw ceisio cyrraedd cwsmeriaid ac ymwelwyr trwy'r busnesau lleol eu hunain. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio grym cyfathrebu torfol y busnesau unigol a'u rhyngweithio uniongyrchol gyda chynulleidfaoedd a chwsmeriaid presennol gan ddefnyddio negeseuon craidd ar lefel y dref a'r sgiliau cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu y dylid eu datblygu i rymuso pob busnes . Byddai angen i ddull deinamig o farchnata fanteisio i'r eithaf ar y dechnoleg tref glyfar ('SMART') a fydd ar gael.

Mae'r cyfle'n bod i hyrwyddo neges fodern sy'n canolbwyntio ar gyfraniad busnesau dylanwadol lleol (ee Caws Cenarth, Gwesty'r Emlyn) ynghyd â llawer o'r busnesau creadigol a moesegol annibynnol i arddangos doniau lleol a chodi delwedd y dref a'r ardal o'i chwmpas.

Mae'r dref yn cynnal llawer o grwpiau a mudiadau cymunedol lleol gweithgar er y bydd angen sicrhau dull cyson a

chydgysylltiedig  o ddatblygu a hwyluso mentrau a digwyddiadau lleol.

## 8 – Caffael nwyddau, gweithiau a gwasanaethau y sector cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn gwario cannoedd o filiynau yn flynyddol ar nwyddau, gweithiau a gwasanaethau, gan roi amrywiaeth o gyfleoedd masnachol i fusnesau o bob sector a maint. Mae'r Cyngor Sir a'r sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod arwyddocâd eu grym gwario ac yn edrych ar ffyrdd o brynu cymaint o hyn ag sy'n bosibl o fewn y Sir. Gellir gwneud mwy i gefnogi caffael lleol gyda chyfleoedd i gyflawni'r canlynol:

- annog busnesau lleol i geisio cyngor a chanllawiau ar gyfleoedd caffael lleol.
- hyrwyddo cyfleoedd, yn enwedig i fusnesau bach a newydd, am gontractau sector cyhoeddus is o ran gwerth na fyddai efallai wedi bod yn ddeniadol yn draddodiadol i gyflenwyr llai.

## 9 – Cynlluniau ynni cymunedol

Mae gwydnwch lleol yn un o nodau allweddol menter y Deg Tref ac felly un o'r elfennau craidd yw cefnogi datblygiad cynlluniau ynni cymunedol i'r trefi unigol, a fydd yn y pen draw yn cynnig ffynhonnell o ynni i gymunedau lleol a busnesau lleol yn ogystal â helpu mynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu'r potensial i gofleidio'r cyfleoedd cysylltiedig ag ynni adnewyddadwy sydd wedi hen sefydlu ei hun yn y Sir, yn enwedig o safbwynt ei fuddion uniongyrchol i gymunedau lleol a chefnogi mwy o wydnwch amgylcheddol.

Er mwyn helpu cyflawni hyn, bydd Ynni Sir Gâr yn helpu cymunedau i adnabod a chwmpasu safleoedd posibl ar gyfer cynhyrchu ynni cymunedol. Byddy safleoedd hyn yn elwa o leihad yn eu bil ynni.

## 10 – Economi Gylchol

Economi gylchol yw lle caiff gwastraff ei osgoi a lle caiff y pethau a ddefnyddiwn eu cadw mewn defnydd gyhyd â phosibl. A bydd cefnogi buddsoddi lleol mewn busnesau a mentrau cylchol, sef busnesau sy'n cadw pethau mewn defnydd yn hirach, trwy ailddefnyddio, atgyweirio, ailgynhyrchu ac adnewyddu yn helpu adfywio'r economi trwy ychwanegu swyddi a datblygu swyddi'n lleol. Trwy wneud hyn yn lleol, y nod hanfodol, yn ogystal â chadw arian mewn cylchrediad o fewn y sir, yw lleihau'r effaith a gaiff y gymuned ar yr amgylchedd.

Y nod yw cefnogi perchnogion busnesau, entrepreneuriaid a gwirfoddolwyr gyda syniadau i helpu datblygu'r economi gylchol yn y dref a Sir Gaerfyrddin.

## 11 – Cartrefi fforddiadwy

Mae ar drefi gwledig ffyniannus, gwydn a chynaliadwy angen cymysgedd o dai newydd yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth os ydynt am lwyddo i gadw a denu poblogaeth o oedran gwaith. Mae deinameg y farchnad dai leol yn cynnwys sawl ffactor, nid prisiau tai yn unig, ond materion eraill fel fforddiadwyedd cymharol, mewnfudo, patrymau teithio i'r gwaith, rhagamcanion poblogaeth a chyfraddau cwblhau anheddau newydd etc. Yn gyffredinol, mae'r angen am gartrefi llai a llai drud ar gyfer teuluoedd iau ac aelwydydd sy'n ffurfio o'r newydd – boed am bris y farchnad, canolraddol neu rent fforddiadwy.

Ar y lefel leol, mae Castellnewydd Emlyn wedi profi graddau cymharol isel o ddiddordeb gan ddatblygwyr dros y blynyddoedd diwethaf. Ar yr un pryd, mae problemau fforddiadwyedd wedi tyfu wrth i brisiau tai godi'n uwch na'r cyfartaledd gwledig ynghych ac incymau cartref is na'r cyfartaledd. Mae'r diffyg cyflawni wedi arwain at leihad cyffredinol yn y nifer o dai a gynllunir. Trwy gyfres o gamau gweithredu, mae'r cyfle yma i'r sector cyhoeddus, tirfeddianwyr a datblygwyr lleol llai i weithio gyda'i gilydd i symud ymlaen gyda'r twf newydd a gynllunir yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ac felly helpu i adeiladu a chefnogi economi leol fwy cynaliadwy.

# 6 Cyflawni'r gwaith

Mae'r cynllun cyflawni yn rhoi syniad o raddfeydd amser, awgrymiadau am bartneriaid cyflawni a'r camau nesaf. Ym mhob achos, byddai angen adolygiad manwl o gwmpas y prosiect a gwaith dylunio manylach i roi amcangyfrifon o gostau.

Mae'r cynllun yn cynnwys tri cham, tymor byr, canolig a hir gyda gradd o flaenoriaeth a awgrymir ar sail diddordeb a gweithgarwch rhanddeiliaid a'r angen i gwblhau tasgau penodol fel casglu data i alluogi datblygu prosiectau allweddol.

- Tymor byr – ar unwaith a'r 12 mis nesaf
- Tymor canolig – 2 neu 3 blynedd
- Tymor hir – 5 mlynedd a'r tu hwnt i hynny.

Argymhellir bod cyfres o brosectau cynnar, 'enillion cyflym' yn cael eu dewis a'u cychwyn er mwyn dangos gweithgarwch ac ennill cefnogaeth ac ymrwymiad busnesau a'r gymuned. Bydd y rhain yn arferol yn brosiectau y gellir eu cyllido o ffrydiau refeniw sy'n bod eisoes neu sy'n golygu buddsoddiad isel o ran cyfalaf. Lle caiff prosiectau mwy cymhleth ond eto â blaenoriaeth uchel eu nodi, dylid blaenoriaethu datblygiad cynnar achos busnes amlinellol a dyluniad.

Mae ffrydiau cyllid ac adnoddau yn aml yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'r rheini a oedd ar gael ar adeg paratoi'r cynllun hwn wedi eu nodi yn y tabl canlynol. Yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, bydd newidiadau sylweddol i'r tirwedd cyllido. Bydd y rhaglenni presennol sy'n cynnal y gweithgarwch presennol, megis Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (LEADER) yn cael ei disodli yn y pen draw ar lefel y Deyrnas Unedig a'u cyfeirio trwy Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei wneud. Yng ngoleuni hyn, bydd angen i'r cynllun fod yn ymatebol dros y 12-24 mis nesaf ac yn gydnaws â ffynonellau o gyllid a ddaw i'r amlwg.

**Tabl 1: Cynllun Gweithredu Castellnewydd Emlyn**

| CAM GWEITHREDU | AMSERLEN | RHANDDEILIAID / PARTNER GWEITHREDU ALLWEDDOL | CYLLID AC ADNOD-DAU POSIBL | Y CAMAU NESAF |
|---|---|---|---|---|
| ***1 – ADFERIAD COVID-19*** | Tymor Byr | Cyngor Sir Gâr, Busnes Cymru a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhan-barthol (RLSP) | Cronfa Adferiad a Chy-morth Cyngor Sir Gaerfyrddin i fusnesau<br><br>Cyllid Cychwynnol LEADER | Bydd Cyngor Sir Gâr yn cydgysylltu cymorth part-ner-asiantaethau i fus-nesau sy'n adfer o ef-feithiau'r pandemig. |
| ***2 – CEFNOGI TWF BUSNESAU***<br>• ***Safleoedd busnes***<br>• ***Canolfannau gweithio / lleoedd gweithio ar y cyd***<br>• ***Ailddefnyddio adeiladau***<br>• ***Cefnogi twf busnesau***<br>• ***Amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd***<br>• ***Cefnogi busnesau sy'n def-nyddio Cymraeg*** | Tymor Byr a chanolig | Cyngor Sir Gâr, perchnogion busnesau ac eiddo, Busnes Cymru a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol<br><br>Helo Blod | Cyllid Cychwynnol LEADER<br><br>Cronfeydd Grantiau Busnes Cyngor Sir Gâr a Chronfeydd Datblygu Eiddo Masnachol<br><br>Helo Blod | Cychwyn deialog gyda pherchnogion tir ac eiddo a chyflawni astudiaethau dichonoldeb safleoedd ac uwchgynllunio.<br><br>Gweithio gyda chyflogwyr allweddol lleol i adnabod gofynion twf<br><br>Parhau rhaglenni Helo Blod sy'n targedu Cas-tellnewydd Emlyn |
| ***3 – TREFI A CHEFN GWLAD DIGIDOL-GLYFAR***<br>• ***Uwchraddio band eang***<br>• ***Tref Wifi***<br>• ***Y Rhyngrwyd Pethau/LoRaWAN*** | Tymor Byr a Chanolig | Cyngor Sir Gâr, Cyngor Tref a grwpiau busnes | Cyllid Cychwynnol LEADER<br><br>Cyllid ac adnoddau Trefi Wi-fi<br><br>Gweithredu a hyfforddiant y Rhyngrwyd Pethau /LoRaWAN<br><br>Cyllid Uwchraddio Band Eang | Cronni'r galw am uwchraddio band eang.<br><br>Cymorth a hyfforddiant trefi Wi-fi i'r partner cyflawni lleol<br><br>Adnabod diddordeb busnesau yn y Rhyngrwyd Pethau /LoRaWAN |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • ***Hyfforddiant digidol*** | | | | |
| ***4 – CANOL Y DREF***<br>• ***Tir y Cyhoedd***<br>• ***Cyfleusterau bancio*** | Tymor Byr, Canolig a Hir | Cyngor Sir Gâr, Cyngor Tref<br><br>Cyngor Sir Gâr, y gymuned fusnes leol, diwydiant banciau | Cyllid Cychwynnol LEADER<br>Cronfa Gyfalaf y Deg Tref<br><br>Diwydiant banciau | Archwilio dichonoldeb / dewisiadau ar gyfer gwelliannau i dir y cyhoedd gyda Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r Cyngor Tref<br><br>Archwilio cyfleoedd am gynllun peilot gyda'r diwydiant banciau (potensial o gysylltu â threfi eraill) |
| ***5 – CERDDED A BEICIO*** | Tymor Canolig a Hir | Cyngor Sir Gâr, tirfeddianwyr preifat | Cronfa Gyfalaf y Deg Tref<br><br>Cronfeydd Seilwaith addas ar gyfer Beicio | Archwilio cyfleoedd i wella cyfleoedd cerdded a beicio yn lleol |
| ***6 – ECONOMI YMWELWYR***<br>• ***Arwyddion ar gyfer ymwelwyr***<br>• ***Atyniadau ymwelwyr***<br>• ***Twristiaeth beicio***<br>• ***Digwyddiadau*** | Tymor Byr a Chanolig | Cyngor Sir Gâr, Darganfod Sir Gâr / Partneriaeth Rheoli Cyrchfan, Cyngor Tref, y gymuned leol a sefydliadau busnes, busnesau lleol | Cyllid Cychwynnol LEADER<br><br>Cronfeydd Grantiau Busnes Cyngor Sir Gâr a Chronfeydd Datblygu Eiddo Masnachol<br><br>Adnoddau Digidol Trefi SMART | Datblygu arwyddion a chynnig digidol i dynnu sylw ymwelwyr.<br><br>Gweithio gyda pherchnogion eiddo lleol a'r busnesau presennol i hyrwyddo cynnig o ddibenion newydd ac amrywiaeth i ymwelwyr<br><br>Ymchwilio, datblygu a hyrwyddo rhaglen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | estynedig o ddigwyddiadau lleol gyda Darganfod Sir Gâr, grwpiau cymunedol lleol busnesau |
| ***7 – HYRWYDDO CASTELLNEWYDD EMLYN***<br>• ***Marchnata'r gyrchfan***<br>• ***Marchnata digidol busnesau*** | Tymor Byr a Chanolig | Darganfod Sir Gâr / Partneriaeth Rheoli Cyrchfan, Cyngor Tref, sefydliadau busnes a busnesau | Cyllid Cychwynnol LEADER | Cydgysylltu â Darganfod Sir Gâr/Partneriaeth Rheoli Cyrchfannau. Cysylltu â mentrau trefi SMART a Wi-fi |
| ***8 – CAFFAEL BLAENGAR Contractau Gwerth Isel*** | Tymor Byr, Canolig a Hir | Cyngor Sir Gâr | Cronfeydd Grantiau Busnes Cyngor Sir Gâr Mentrau Caffael Blaengar Cyngor Sir Gâr | Camau mewn ymateb i'r argymhellion o ganlyniad i weithredu'r astudiaeth gaffael blaengar |
| ***9 – CYNLLUNIAU YNNI CYMUNEDOL*** | Tymor Byr | Busnes ac Ynni Sir Gar | LEADER/ Ynni Sir Gaŕ | Mae gan Ynni Sir Gaŕ gyllid LEADER hyd at fis Mawrth 2022 ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol ac maent yn chwilio am fusnesau a sefydliadau eraill i weithredu hyn gyda hwy |
| ***10 – ECONOMI GYLCHOL*** | Tymor Byr a Chanolig | Busnesau a Chyngor Sir Gâr | Cyllid Cychwynnol LEADER a'r fenter Economi Gylchol | Argymhellion astudiaethau dichonoldeb Economi Gylchol |
| ***11 – CARTREFI FFORDDIADWY*** | Tymor Byr, Canolig a Hir | Cyngor Sir Gâr/datblygwyr | Cyfraniadau datblygwyr a Chyngor Sir Gaerfyrddin a Cartrefi Croeso | Sicrhau cartrefi fforddiadwy newydd trwy adolygu polisi'r Cynllun Datblygu Lleol a chyfeirio'r gwaith cyflawni trwy ddatblygwyr a Cartrefi Croeso a chymdeithasau tai |

## Tabl 2: Cyllid ac Adnoddau

### CYMORTH SWYDDOGION TREFI MARCHNAD

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau trwy raglen Leader RDP i recriwtio 2 X Swyddog Trefi Marchnad a fydd yn gweithio gyda'r 10 Tref i weithredu camau a nodwyd yn y cynlluniau twf economaidd. Y swyddi hyn fydd y cyswllt allweddol rhwng y trefi a'r amrywiol gyfarwyddiaethau ledled yr Awdurdod.

### CYLLID CYCHWYNNOL LEADER

£10k o refeniw i helpu'r trefi i gefnogi a datblygu argymhellion sy'n codi o'r cynllun twf. Enghreifftiau o'r gweithgareddau sy'n gymwys am gymorth (nid yw'n hollgynhwysol) gall cynnwys costau ar gyfer adeiladau busnes, twristiaeth / digwyddiadau, hyfforddi, marchnata, gwasanaethau arbenigol a mesurau adfer COVID-19.

### CYNLLUNIAU YNNI CYMUNEDOL

Gallai datblygu cynlluniau ynni cymunedol i'r trefi fod â'r potensial o gynnig cyfleoedd cynhyrchu ynni i'r trefi hyn. Mae Ynni Sir Gâr Cyf wedi cael eu comisiynu i adnabod a chwmpasu safleoedd posibl o amgylch y Deg Tref gan weithio'n agos gyda Gwasanaethau Ynni Cymru y gellid eu datblygu ymhellach yn brosiectau ynni cymunedol.

### CYLLID CYFALAF

Mae Cyngor Sir Gâr ar hyn o bryd yn ystyried cynigion i neilltuo cyllid cyfalaf i gynorthwyo gyda chyflawni mentrau a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol ar gyfer prosiectau a nodir yn y Cynlluniau Twf.

### ADFERIAD A CHYMORTH BUSNES CYNGOR SIR GÂR

Yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol, rhagwelir y bydd y ffrydiau cyllid adfer busnesau o dan arweiniad y Cyngor Sir ar gael i fusnesau o fis Mawrth 2021.

- Cronfa Adfer i ddiogelu/creu swyddi cynaliadwy mewn sectorau targedu twf
- Cronfa Gymorth refeniw i fuddsoddi mewn swyddi, marchnata ac arallgyfeirio i ddiogelu a thyfu swyddi
- Cronfa menter gwledig Sir Gaerfyrddin – datblygiad o adeiladau busnes newydd a adeiladau busnes sydd yn bodoli eisoes
- Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol Trawsnewidiol Sir Gaerfyrddin - cymorth ariannol ar gyfer adeiladu adeiladau am ddefnydd diwydiannol a masnachol.
- Cronfa cychwyn busnes - cefnogaeth gyfalaf ar gyfer creu busnesau newydd lle bydd swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r cymorth.
- Cronfa tyfu busnes - cymorth ar gyfer prosiectau gwariant cyfalaf a gwariant refeniw arbenigol lle bydd swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r cymorth.

### MARCHNATA LLEOL/NODWEDDION UNIGRYW

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau trwy raglen Leader i hyrwyddo Sir Gâr wledig i dwristiaid posibl. Caiff y prosiect ei arwain gan Dîm Marchnata a Chyfryngau Cyngor Sir Gâr a bydd yn datblygu straeon a rhesymau dros ymweld, rhai sy'n mawrygu'r diwylliant a'r iaith Gymraeg, cynnyrch a gynhyrchir yn lleol etc, a chyflawni cynllun gweithredu marchnata (gan gynnwys deunydd hyrwyddo wedi ei frandio, cynnwys wedi'i baratoi ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ee testun, lluniau a fideo, a phecyn i fusnesau.

## SAFLEOEDD GWAG/DIBENION CYFAMSEROL

Cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau arferion da i'r rhanbarth a fydd yn galluogi cymunedau i ddatblygu safleoedd gwag yn lleoedd 'cyfamserol' neu siopau dros dro, gan roi cyngor ymarferol ar faterion cyfreithiol, trethi busnes etc. Potensial i ddefnyddio'r £10k cyllid Leader i addasu adeiladau gwag i'r diben hwn.

## ECONOMI GYLCHOL – ADFERIAD CYNALIADWY O COVID-19

Mae'r Cyngor Sir wrthi ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth i gefnogi buddsoddi lleol mewn busnesau a mentrau cylchol: sef, mentrau sy'n cadw pethau mewn defnydd yn hirach, trwy ailddefnyddio, atgyweirio, ailgynhyrchu ac adnewyddu, ac wrth wneud hynny, helpu adfywio'r gymuned trwy ychwanegu swyddi a datblygu sgiliau'n lleol. Trwy wneud hyn yn lleol, bydd y fenter, yn ogystal â chadw arian mewn cylchrediad o fewn y sir, yn lleihau'r effaith mae Sir Gaerfyrddin yn ei gael ar yr amgylchedd. Anogir prosiectau newydd posibl gyda rhanddeiliaid, perchnogion busnesau, entrepreneuriaid, gwirfoddolwyr lleol etc.

## TREFI DIGIDOL/CLYFAR

Mae technoleg ddigidol wedi chwarae rhan sylweddol mewn galluogi busnesau a chymunedau i addasu yn ystod y pandemig COVID 19.

- Trefi Wi-fi – Wedi sicrhau cyllid i gyflwyno wi-fi am ddim i bob un o'r Deg Tref am gyfnod o 2 flynedd. Mantais rhwydwaith wi-fi tref yw'r data mae'n ei ddarparu o ran tueddiadau ymwelwyr fel: cyfraddau troedio; amser a dreulir; dyddiau prysuraf yr wythnos etc; mesur llwyddiant digwyddiad i gyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol; gellir ei ddefnyddio i ddenu busnes newydd. Amser y swyddogion i weithio gyda'r trefi i ddadansoddi'r data a sicrhau bod busnesau lleol yn derbyn yr wybodaeth hon a datblygu cylchlythyr newyddion rheolaidd yn rhoi gwybodaeth ar y trefi; cynigion busnes lleol, digwyddiadau etc
- Y Rhyngrwyd Pethau – Mentrau i archwilio a datblygu'r defnydd o'r Rhyngrwyd Pethau a thechnoleg LoRaWAN fel ffordd o gefnogi'r Deg Tref. Sicrhawyd cyllid I brynu pyrth I'r Rhyngrwyd Pethau. Neilltuwyd cyllid pellach ar gyfer prynu synwyryddion a'u defnyddio unwaith y mae syniadau wedi cael eu nodi.
- Hyfforddiant digidol – Hwyluso cyfres o hyfforddiant rhithiol er mwyn uwchsgilio, rhannu gwybodaeth ac annog y defnydd o dechnoleg ar draws y trefi marchnad.
- Cysylltedd Digidol – Mae'r Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda Llywodraethau Prydain a Chymru i hyrwyddo'r Gronfa Uwchraddio Band Eang i helpu busnesau, gweithwyr a chymunedau i fanteisio ar yr holl fuddion sy'n gysylltiedig â chysylltiadau rhyngrwyd cyflymach a mwy dibynadwy.